

Pobol y Cwm

Geirfa

gêm fwrdd (gemau bwrdd)
– board game(s)

meddygfa (meddygfeydd) – (doctor's)
surgery (surgeries)

mins-pei(s) – mince pie(s)

dyddiad geni – date of birth

ffrindiau mawr – great friends

cynllun(iau) – plan(s)

twba lwcus – lucky dip


Syniad da!

– Gemau bwrdd Cymraeg


Even in this age of apps, computer games and youtube, sometimes nothing beats a good old fashioned board game or a game of cards for some family fun. But why not practise your Cymraeg at the same time? Dach chi'n medru chwarae gemau cardiau fel *Uno* yn hawdd pan dach chi'n gwybod y lliwiau a'r rhifau yn Gymraeg. Mae 'na setiau Snap a jig-sos Cymraeg ar gael, a hefyd gemau bwrdd fel *Monopoly*, *Lotto*, *Junior Scrabble* a *Scrabble* Cymraeg.

Edrychwch yn eich Siop Gymraeg leol, neu ewch i:

http://www.gwales.com/search_advanced/?lang=EN&tsid=10



Cân: Sosban Fach



*If you've ever watched the Scarlets rugby team playing, you've probably heard the crowd singing **Sosban Fach**. This popular song is taught in many schools and is a firm favourite in Welsh folk sessions and singalongs. Don't take too much notice of the English translation – the words don't make a lot of sense in Welsh either! Ewch amdani a mwynhewch!*

Mae bys Meri-Ann wedi brifo,
A Dafydd y gwas ddim yn iach.
Mae'r baban yn y crud yn crio,
A'r gath wedi sgramo Joni bach.

*Mary-Ann has hurt her finger,
And Dafydd the servant is unwell.
The baby in the cradle is crying,
And the cat has scratched little Johnny.*

Sosban fach yn berwi ar y tân,
Sosban fawr yn berwi ar y llawr,
A'r gath wedi sgramo Joni bach.

*Little saucepan boiling on the fire,
Big saucepan boiling on the floor,
And the cat has scratched little Johnny.*

Watch this video of visitors at the Eisteddfod singing Sosban Fach. You might recognise a few famous faces!

[Sosban Fach - YouTube](#)



Pwy ydy hi? Pwy ydy o?

Darllenwch y disgrifiadau (*descriptions*) and match the babies with their pictures.



Lili



Elis



Siwan



Siôn



Haf

1. Coch ydy lliw ei gwallt hi. Porffor ydy lliw ei het haul hi. Pinc ydy lliw ei gwisg nofio hi. Coch ydy lliw ei lolipop hi. _____ ydy hi.
2. Brown ydy lliw ei gwallt hi. Coch ydy lliw ei het haul hi. Glas ydy lliw ei gwisg nofio hi. Melyn ydy lliw ei lolipop hi. _____ ydy hi.
3. Du ydy lliw ei wallt o. Gwyn ydy lliw ei het o. Melyn ydy lliw ei wisg nofio o. Porffor ydy lliw ei lolipop o. _____ ydy o.
4. Melyn ydy lliw ei gwallt hi. Glas ydy lliw ei het haul hi. Porffor ydy lliw ei gwisg nofio hi. Oren ydy lliw ei lolipop hi. _____ ydy hi.
5. Brown ydy lliw ei wallt o. Gwyrdd ydy lliw ei het haul o. Coch ydy lliw ei wisg nofio o. Oren ydy lliw ei lolipop o. _____ ydy o.

Rŵan, edrychwch ar y lluniau a disgrifiwch y plant, heb edrych ar y brawddegau.

Sgwrs – Yn y Feddygfa

Darllenwch y sgwrs efo'ch partner. Wedyn:

- Robert ydy'r plentyn rŵan. Rhaid i chi newid y geiriau sy wedi'u tanlinellu (*underlined*).
- Hefyd, ysgrifennwch y dyddiad geni a'r amser mewn rhifau:

- Be ydy dyddiad geni eich plentyn / plant chi?

Derbynnydd: Bore da, Meddygfa Bryn Castell. Ga i helpu?

Rhiant: Bore da. Dw i isio gwneud apwyntiad i fy merch i. Mae hi'n teimlo'n ofnadwy. Mae gynni hi wres, mae hi'n wan ac mae gynni hi ddolur gwddw.

Derbynnydd: Iawn, wrth gwrs. Be ydy ei henw hi?

Rhiant: Rebecca Bowen.

Derbynnydd: A be ydy ei dyddiad

geni hi?

Rhiant: Tachwedd tri deg, dwy fil un deg saith.

Derbynnydd: Iawn. Dw i'n edrych ar y system rŵan. Mae 'na apwyntiad ar gael efo Dr James am ugain munud i ddeg. Ydy hynny'n iawn?

Rhiant: Ydy, diolch yn fawr. Mi wela i chi wedyn. Hwyl!

Derbynnydd: Hwyl!



Sgwrs – yn ymyl yr ysgol

Meinir: Helo, tad Joseff dach chi, ia?

Robin: Ia, dyna ni. Dw i'n nabod eich wyneb chi, ond sori, dw i ddim yn cofio pwyl dach chi.

Meinir: Meinir, mam Sioned dw i. Mi wnaethon ni gyfarfod yn Ffair Nadolig yr ysgol.

Robin: Wrth gwrs! Roeddech chi'n gwerthu'r mins peis.

Meinir: O'n, ac roeddech chi'n gwneud y twba lwcus. Be ydy'ch enw chi?

Robin: Robin ydy fy enw i.

Meinir: A, ia. Wel, mae Sioned yn

siarad am Joseff drwy'r amser!

Robin: Maen nhw'n ffrindiau mawr. Mae Joseff yn hoff iawn o Sioned.

Meinir: Rhaid iddo fo ddwâd i chwarae efo Sioned. Be am y penwythnos yma?

Robin: Sgynnon ni ddim cynlluniau.

Meinir: Iawn, be ydy'ch rhif ffôn chi?

Robin: Dim saith pedwar saith pump, naw tri tri naw tri dim.

Meinir: Diolch. Mi fydda i'n ffonio ar ôl cyrraedd adre.

Robin: Mi fydd Joseff yn hapus iawn.

Adolygu ac edrych ymlaen

Geirfa

Cymdeithas Rieni ac Athrawon – PTA

malws melys – marshmallows

**rheolwraig (rheolwragedd)
– managaress(es)**

**sach gysgu (sachau cysgu)
– sleeping bag(s)**

syrpréis (syrpreisys) – surprise(s)

taleb(au) – voucher(s)

gwersylla – to camp

sblasio – to splash

Am dywydd! – What awful weather!

I mewn â ti – In you go

wastad – always

**yn wên o glust i glust – beaming,
smiling broadly**

can dŵr (caniau dŵr) – watering can(s)

gwely gwynt (gwelyau gwynt) – airbed(s)

siocled poeth – hot chocolate

trysorydd(ion) – treasurer(s)

**ysgrifennydd (ysgrifenyddion)
– secretary (secretaries)**

Syniad da!

– daliwch ati!



Mae'r cwrs Mynediad wedi gorffen, ond daliwch ati! *You've come so far and learnt so much – don't let it go!* Felly, tan y cwrs Cymraeg nesaf:

- Cofiwch siarad Cymraeg efo'r teulu bob dydd, *even if it's just a few words.*
- *Keep in touch with your dosbarth Cymraeg to practise your Cymraeg. Perhaps you could meet up occasionally or chat on-line.*
- Gwylwch S4C a gwrandewch ar Radio Cymru.
- Defnyddiwch apiau Cymraeg efo'r plant, fel yr apiau yn Uned 3 a 23.
- Edrychwch ar www.learn-cymraeg.cymru. *There are lots of resources on the Dysgu Cymraeg website to help you practise your Cymraeg yn y tŷ.*



Cân: Hwyl Fawr Ffrindiau

As we draw to the end of the Cwrs Mynediad, this is a song about saying hwyl fawr! I'm sure that many of you will have heard your children singing Hwyl Fawr Ffrindiau before leaving the ysgol or Cylch Meithrin.



Dyma fideo o blant bach Casnewydd (Newport) yn canu Hwyl Fawr Ffrindiau.

Hwyl fawr ffrindiau,	<i>Goodbye friends,</i>
Hwyl fawr ffrindiau,	<i>Goodbye friends,</i>
Hwyl fawr ffrindiau,	<i>Goodbye friends,</i>
Mae'n amser dweud hwyl fawr.	<i>It's time to say goodbye.</i>



<https://www.youtube.com/watch?v=RabiWMkGiEI>

Twdlw a bant â ni,	<i>Toodle-oo and off we go,</i>
bant â ni, bant â ni,	<i>off we go, off we go, Toodle-oo and off we go,</i>
Twdlw a bant â ni,	<i>It's time to say goodbye.</i>
Mae'n amser dweud hwyl fawr.	

Sgwrs: Prynu anrheg

Alun ydy Ysgrifennydd y Gymdeithas Rieni. Nia ydy'r Trysorydd. Maen nhw'n siarad ar y ffôn.

Alun: Helo Nia, Alun yma. Sut wyt ti?

Nia: Da iawn diolch. A ti?

Alun: Grêt diolch. Gwranda, mae gen i newyddion.

Nia: O?

Alun: Mae Mrs Davies y Pennaeth yn ymddeol.

Nia: Ydy hi? Mae hi'n ifanc!

Alun: Mae hi isio mwynhau efo'r wyrion a mynd i deithio.

Nia: Wel, rhaid i ni gael anrheg arbennig i Mrs Davies. Mae hi'n bennaeth ardderchog.

Alun: Ydy. Ond sgen i ddim syniad be i brynu. Be wyt ti'n feddwl?

Nia: Wel, be am brynu te prynhawn iddi hi yn y tŷ te newydd yn y pentref? Hefyd, taleb i siop ddillad neis? Mae hi'n hoffi dillad!

Alun: O ydy! Mae hi'n smart.

Nia: Rhaid i ni gael siocled hefyd, a photel o siampên.

Alun: Syniad da. Diolch Nia.

Nia: Croeso. Wel, rhaid i ni gasglu pres rŵan.

Alun: Dw i'n siŵr byddwn ni'n medru casglu llawer o bres.

Mae Mr Davies yn ymddeol. Newidiwch y sgwrs. Defnyddiwch 'fo' yn lle 'hi'.



Stori – Y Trip Gwersylla Rhan 1

Roedd hi'n hanner dydd ac roedd Haf yn gyrru i'r Cylch Meithrin i gasglu lanto, ei mab hi. Roedd hi'n bwrw glaw ac roedd 'na lawer o ddŵr ar y ffordd.

"Ych a fi, mae'r tywydd yn ofnadwy!" mi feddylodd Haf. "Bechod. Dim trip gwersylla i ni! Mi fydd lanto'n siomedig iawn. Mae o'n hoffi gwersylla."

Mi wnaeth Haf barcio'r car. Mi wnaeth hi gerdded at y gât ac mi wnaeth hi weld ei ffrind hi, Lisa. Roedd Lisa yn casglu ei merch hi, Siwan.

"Am dywydd!" meddai Lisa'n drist. "Mae hi wastad yn bwrw glaw pan mae'r gwyliau'n dechrau!"

"Dw i'n gwybod!" atebodd Haf. Yna, mi wnaeth hi wenu. Roedd hi'n medru gweld lanto yn cerdded at y gât efo Rhiannon, Rheolwraig y Cylch Meithrin. Roedd o'n wên o glust i glust.

"Helo Mami!" mi wnaeth lanto ddeud. "Wyt ti wedi pacio popeth? Ydy Tedi yn y car? Dan ni'n mynd i wersylla rŵan, Rhiannon."

"Ydach chi?" mi wnaeth Rhiannon ofyn. "Dydy hi ddim yn braf iawn heddiw!"

Mi wnaeth Haf edrych ar lanto. Roedd rhaid iddi hi ddweud y newyddion drwg.

"Sori, lanto. Dan ni ddim yn medru mynd i wersylla. Edrycha ar y tywydd! Mae hi'n stormus iawn heddiw."

"Na!" mi wnaeth lanto ddweud. "Na, na, na! Dw i isio gwersylla! Dw i isio cysgu mewn sach gysgu ac yfed siocled poeth efo malws melys yn ymyl y tân! Sgen i ddim ots am y glaw!"

"Dan ni ddim yn medru gwersylla heno, lanto bach. Mi fydd y babell yn torri yn y gwynt a'r glaw! Tyrd, cariad. Rhaid i ni fynd adre rŵan."

Mi wnaeth Haf a lanto redeg at y car. Roedd lanto'n hoffi sbasio mewn pyllau dŵr fel arfer ond roedd o'n rhy grac heddiw. Mi wnaeth o stampio ei draed. Wedyn, mi wnaeth o gicio y car. "Dw i isio gwersylla!" mi wnaeth o sgrechian.

"I mewn â ti i'r car lanto – tyrd!" meddai Haf. Roedd pawb yn edrych ar lanto yn sgrechian. Roedd hi isio gadael yn gyflym.

Atebwch mewn brawddegau llawn.

1. Sut mae'r tywydd yn y stori?
2. Be ydy enw ffrind Haf?
3. Pwy ydy Siwan?
4. Lle mae lanto isio mynd?

Ffeindiwch y cyfieithiadau (*translations*) Cymraeg yn y stori.

There was a lot of water on the road

He loves camping

Have you packed everything?

bad news I don't care

the tent he screamed

Siaradwch efo'ch partner

- Dach chi'n hoffi gwersylla?
- Lle oeddech chi'n mynd ar wyliau pan oeddech chi'n blentyn?
- Lle oeddech chi'n mynd ar wyliau cyn cael plant?
- Lle dach chi'n hoffi mynd ar wyliau rŵan?

Y Trip Gwersylla Rhan 2

Yn y tŷ, roedd wyneb lanto yn goch. Roedd o wedi bod yn crio am amser hir.

“lanto?” meddai Haf. “Wyt ti’n teimlo’n well rŵan?”

“Ydw,” atebodd lanto. “Dw i ddim mor drist rŵan.”

“Da iawn,” meddai Haf. “Rŵan, be am i ti chwarae efo Lego yn y gegin? Os wyt ti’n hogyn da, ella bydd sypréis wedyn...”

“O!” meddai lanto. “Dw i’n hoffi sypreisys.”

Mi aeth lanto i’r gegin efo bocs bach o Lego. Mi wnaeth o ddechrau adeiladu castell mawr. Roedd o’n licio Lego.

Yn y lolfa, roedd Haf yn brysur. Roedd hi’n symud y sofffa ac yn rhoi blancedi dros y cadeiriau. Roedd hi wedi rhoi dau wely gwynt ar y llawr, a dwy sach gysgu. Rŵan, roedd y lolfa’n edrych fel maes gwersylla!

“lanto!” meddai hi. “Tyrd yma cariad! Wyt ti isio’r sypréis?”

“O, oes!” mi wnaeth o ateb.

Mi wnaeth lanto redeg i’r ystafell ac mi wnaeth o wenu.

“Waw! Cŵl!”

“Dan ni ddim yn medru gwersylla tu allan, felly rhaid i ni wersylla tu fewn!”

“Ydan ni’n cysgu fan hyn heno?”

“Ydan! Drycha, mae dy sach gysgu di fan hyn yn ymyl fy sach gysgu i. Rŵan, wyt ti isio siocled poeth?”

“Oes, plŷs! Efo malws melys?”

“Wrth gwrs!”

“Diolch, Mam. Mae hyn yn ffantastig.”



Dewiswch yr atebion cywir

Pam oedd lanto’n drist ar y dechrau?

Doedd o ddim yn hoffi Lego Roedd Haf yn brysur Roedd o isio mynd i wersylla

Be mae Haf a lanto’n mynd i wneud?

adeiladu castell gwersylla yn y lolfa chwarae yn y gegin

Rŵan, edrychwch ar y brawddegau yma. Efo’ch parther, faint o weithiau dach chi’n medru newid y geiriau sy wedi’u tanlinellu? *How many different words can you think of to replace the underlined words below?*

Roedd hi wedi rhoi dau wely gwynt ar y llawr.
Mae dy sach gysgu di fan hyn.

Wyt ti isio siocled poeth?
Mae hyn yn ffantastig.